



Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 26AIN HYDREF, 2017

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen
01286 679665**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 18 Hydref 2017)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Nia Wyn Jeffreys
Linda Ann Jones
Catrin Wager

Annwen Hughes
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Dylan Bullard
Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI GAN AELODAU

9 - 10

Cyflwyno materion ynghlych cefnogaeth i Aelodau.

6. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

11 - 13

I ddiweddarau'r pwyllgor ar negeseuon o gyfarfodydd gydag aelodau newydd.

7. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - YMGYNGHORIAD

14 - 15

I dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

8. DATA AMRYWIAETH

16 - 18

Diweddariad ar ddata amrywiaeth yn unol â chais y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 11/7/17

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr: Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Cai Larsen, Dewi Owen a Catrin Wager.

Swyddogion: Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Huw Ynr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Nia Meleri Edwards (Swyddog Datblygu a Rheoli newid), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies a Gareth A. Roberts.

1. ETHOL IS GADEIRYDD

PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2017-18

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2017 fel rhai cywir.

4. RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu rôl y Pwyllgor hwn. Nodwyd dyletswydd y Pwyllgor i gynorthwyo wrth ddatblygu cefnogaeth i aelodau gan gynrychioli eu cyd-aelodau, sicrhau bod staff ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i gefnogi aelodau, ac adrodd i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Cyflwynwyd ystadegau am gyfansoddiad y Cyngor wedi'r etholiad ym Mai 2017:

- Bod 24 aelod newydd wedi eu hethol yn 2017 o'i gymharu â 30 yn 2012
- Bod llai o aelodau benywaidd yn aelodau o'r Cyngor wedi'r etholiad o'i gymharu â 2015. Bellach, 23% o aelodau Cyngor Gwynedd sydd yn fenywaidd.
- Bod y ganran o aelodau gwrywaidd y Cyngor sydd rhwng 45 a 65 oed wedi cynyddu o 18.18%.
- Nad oedd aelod o'r Cyngor yn y grŵp oedran 18-24 yn 2017

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd ei fod yn ddiddorol fod y nifer o aelodau hŷn wedi cynyddu.
- Nad oedd yn ymddangos fod pobl ifanc yn cymryd diddordeb yn y broses ddemocrataidd, ac y byddai'n fuddiol petai'r Pwyllgor yn ystyried ymgysylltu gyda charfannau o bobl ifanc er mwyn eu haddysgu am y broses ddemocrataidd a'u hannog i gymryd rhan.
- Nodwyd siom nad oedd yn ymddangos i waith caled yr Is-grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth ddod a newid i ystadegau y Cyngor newydd, er y nodwyd o'r

dechrau y byddai'n anodd iawn profi effaith gwaith y grŵp. Byddai'n fuddiol gweld os oedd dadansoddiad oed/rhyw ar gael ar gyfer holl ymgeiswyr yr etholiad ym Mai 2017.

- Nodwyd fod gwahanol adegau mewn bywyd, megis magu plant ifanc, yn medru bod yn rhwystr i rai fyddai'n dymuno bod yn gynghorwyr.

5. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn awgrymu eitemau posib ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor yn 2017-18.

Yn dilyn trafodaeth, ychwanegwyd y materion canlynol i raglen waith y Pwyllgor:

- Cydweithio'n agosach gyda'r Pwyllgor Safonau, gan gynnwys derbyn adroddiad ar waith y Pwyllgor hwnnw.
- Gwaith ymchwil i egluro'r amgylchiadau sy'n medru effeithio ar gyfraddau presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor.
- Bwlio a chyfryngau cymdeithasol
- Ehangu gwaith hybu democratiaeth
- Ymchwilio i weld sut allai Aelodau etholedig y Cyngor gyfrannu tuag at unrhyw arbedion pellach.

PENDERFYNWYD: Ychwanegu'r eitemau uchod i'r rhaglen waith

6. CROESO AC ANWYTHO

Cyflwynwyd ar lafar gefndir y sesiynau a gynhaliwyd i anwytho'r Aelodau wedi'r etholiad ym Mai 2017. Nodwyd fod gwaith caled wedi ei wneud er mwyn darparu sesiynau effeithiol a bod hynny wedi talu ar ei ganfed gan fod sylwadau positif wedi eu derbyn gan Aelodau newydd ac Aelodau oedd yn dychwelyd wedi'r etholiad.

Cafwyd trafodaeth ar sut y gellid addasu'r sesiynau anwytho ymhellach i'r dyfodol er mwyn eu gwella. Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd y byddai'n fuddiol derbyn arweiniad ar waith ward, yn enwedig ar sut i gadw trigolion Gwynedd yn ganolog
- Byddai taith o gwmpas yr adeiladau er mwyn ymgyfarwyddo wedi bod yn fuddiol.
- Byddai'n fuddiol petai gwybodaeth gryno am bwyllgorau a'u swyddogaethau ar gael i'r Aelodau.
- Bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng adrannau'r Cyngor a'r Aelodau pan fydd gwaith yn cael ei wneud neu ddiwyddiadau yn cael eu cynnal mewn wardiau penodol.

9. DYSGU A DATBLYGU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn diweddar aelodau'r Pwyllgor ar y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn oedd ar y gweill, gan geisio arweiniad a sylwadau ar ddatblygiadau pellach. Gan gydnabod a diolch am gyfraniad y Pwyllgor hwn wrth ddatblygu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2017-18, pwysleisiodd fod Dysgu a Datblygu yn llawer ehangach na sesiynau hyfforddiant ffurfiol. Nododd bod sesiynau adnabod anghenion dysgu ar gael i'r Aelodau. Nododd hefyd fod cynllun Mentora a Chymhelliant ar gael i'r Aelodau, ac roedd nifer eisoes wedi dangos diddordeb.

Mewn ymatebi gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor nododd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r pwyntiau canlynol:

- Er nad oedd y cynllun mentora a chymhelliant yn defnyddio cyn aelodau, nad oedd hynny yn amhosib. Er hynny, byddai'n rhaid i unrhyw fentoriaid ddilyn arfer da

- 'Roedd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi bod yn ceisio trefnu sesiynau llai a'u cynnal yn amlach, fel bod y rhai oedd yn mynychu yn cael y budd mwyaf ac yn cael dewis o nifer o amseroedd er mwyn cyfleuster. Byddai sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu os oedd digon o alw.

Sylwadau pellach yn codi o'r drafodaeth:

- Bod angen manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau ym myd technoleg.
- Bod angen hyfforddiant pellach a mwy o opsiynau i aelodau unigol er mwyn cael y gwerth a budd mwyaf o'r cyfarpar sydd wedi ei rannu i'r Cynghorwyr.
- Bod cynnal cyfarfodydd trwy fideo gynadleddau yn gallu gweithio'n dda gyda cadeirio effeithiol.

Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsffurfio ei fod yn bwysig fod yr aelodau yn cyfathrebu unrhyw rwystrau a phroblemau oedd yn codi eu pennau gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Pwysleisiodd hefyd rôl y Pwyllgor hwn wrth yrru datblygiadau yn eu blaen.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.00pm.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 Hydref 2017
TEITL YR ADRODDIAD	Materion yn codi gan aelodau
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am faterion ynghylch cefnogaeth i aelodau sydd wedi eu codi gan aelodau er sylw'r pwyllgor.
ARGYMHELLIAD	Derbyn sylwadau'r Pwyllgor
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg o Orffennaf 2017, nodwyd fod gan y Pwyllgor rôl i gynorthwyo y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrth ddatblygu cefnogaeth i aelodau, gan sicrhau bod staff ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i gefnogi aelodau.
2. Wrth ystyried cefnogaeth ar gyfer aelodau, mae rhai materion wedi codi trwy amrywiol fforymau sy'n addas i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu trafod er mwyn adnabod ffordd posib ymlaen.
3. Lleoliadau Cyfarfodydd. Mae sylwadau wedi eu derbyn fod gofynion mynychu/teithio i gyfarfodydd (boed yn ffurfiol, anffurfiol neu yn hyfforddiant) yn cymryd llawer iawn o amser, a bod ymdeimlad fod nifer o'r cyfarfodydd hyd yma wedi eu lleoli yng Nghaernarfon. Tra'n deall fod rhai cyfarfodydd ar ddechrau'r Cyngor yn annatod wedi gorfod cael eu cynnal yng Nghaernarfon (ee dau ddiwrnod anwytho), roedd y sylwadau dderbyniwyd ynghylch adnabod ffyrdd eraill o gyfarfodydd ar gyfer y dyfodol. Cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch y ffordd ymlaen, yn eu mysg:
 - lleoli rhai cyfarfodydd (ble'n bosib) ym Mhenrhyn
 - gwella'r defnydd o fideo gynhadledd a'i ddefnyddio yn fwy aml, yn arbennig ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol
 - cynnal hyfforddiant mewn modd gwahanol ee yn y fforymau ardal, recordio hyfforddiant fel bo modd i aelodau wylio'r prif rannau, hyfforddiant webinar.
 - Gwella'r defnydd o "Skype for business" .
4. Cysylltu ag Adrannau, gwybodaeth a chyfathrebu gan Adrannau.
 - Mae'r elfen am gysylltu gydag adrannau yn derbyn sylw yn yr adroddiad "Cyfweliadau Datblygiad Personol" ble'r awgrymir sefydlu is-grwp i sicrhau fod y porth aelodau yn gyfredol ac yn hawdd i'w ddefnyddio gan aelodau.
 - Derbyniwyd sylwadau gan rhai aelodau oedd yn anhapus fod datblygiadau wedi digwydd yn eu ward ac nad oedd cyswllt wedi bod gyda hwy fel aelod lleol cyn i'r datblygiad ddigwydd. Gofynnir am sylwadau'r pwyllgor.
5. Cyhoeddi cyfeiriadau Aelodau ar y we.

Mae achos difrifol diweddar llofruddiaeth yr Aelod Seneddol Jo Cox wedi dod a diogelwch unrhyw un sy'n gweithredu mewn swyddogaeth i gynorthwyo'r cyhoedd i flaen ein meddyliau i gyd. Mae diogelwch personol yn hynod bwysig i holl aelodau'r Cyngor, yn arbennig pan fo aelodau etholedig yn cynorthwyo unigolion bregus yn eu cymuned. Mae rhai aelodau wedi cysylltu gyda chais i beidio cyhoeddi eu cyfeiriad

personol ar y safle we. Gan fod posib i aelodau'r cyhoedd gysylltu a'u aelod lleol trwy rif ffon neu trwy gyfeiriad e-bost swyddogol cynghorwyr, mae'r gwasanaeth wedi ymateb drwy beidio cyhoeddi cyfeiriadau aelodau sydd ddim yn dymuno hynny ar y safle we. Gellir sicrhau fod unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei yrru ymlaen at swyddfa grwp penodol neu dynnu'r cyfeiriad yn llwyr.

6. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar yr uchod.

Eitem 6

Cyfarfod	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad	26 Hydref, 2017
Pwnc	Cyfweliadau Datblygiad Personol – Cyfarfodydd Unigol yn dilyn o'r anwytho
Pwrpas	Diweddaru'r pwyllgor ar negeseuon o gyfarfodydd gydag aelodau newydd
Awdur	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

CYFLWYNIAD

1. Bydd y Pwyllgor yn ymywbodol, mae'n siwr, bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i fod yn cynnig Cyfweliadau Datblygu Personol i bob aelod er mwyn trafod anghenion hyfforddi a datblygu. Bydd angen i'r Pwyllgor drafod hyn a'r ffordd y mae am wneud hynny dros y misoedd nesaf ar ôl i aelodau'r Cyngor newydd ymsefydlu yn eu gwaith.
2. Fodd bynnag, fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer anwytho aelodau etholedig ar ôl yr etholiad, fe wnaed cynnig i'r 24 aelod newydd o'r Cyngor os oeddent yn dymuno cael sgwrs 1:1 wrth iddynt setlo i fewn i'r gwaith.
3. Cynhaliwyd 10 o'r cyfarfodydd hynny gydag Arwel Jones, yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol. Roedd yn gyfle i gael trafodaeth gyfrinachol gyda'r aelodau ac roedd yn gyfle i drafod amrywiaeth o faterion wrth i'r aelodau newydd gyfarwyddo â'r Cyngor a setlo i mewn i'w gwaith. Diben yr adroddiad hwn yw adrodd rhai negeseuon cyffredinol sydd angen sylw'r Pwyllgor a oedd yn codi o'r cyfweliadau hynny, a gwahoddir barn y Pwyllgor arnynt.

PRIF NEGESUON

4. Mae'n amlwg o'r trafodaethau bod tipyn o waith cyfarwyddo gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio fel sefydliad. Mae hynny yn disgyn i ddau brif gategori. Yn gyntaf, trefniadau pwyllgor lle mae rhai o'r trefniadau cyfansoddiadol yn ddiethr iawn i rai aelodau. Cynhaliwyd "syrjeri" ar 14 Medi i helpu ar y materion hyn. Cafodd hwnnw ei fynychu gan 10 aelod a oedd yn werthfawrogol iawn ond dim ond 3 o'r 10 oedd yn aelodau newydd. Felly, efallai y byddai'n fuddiol ail redeg y sesiwn neu ddarparu pecyn dysgu ar lein gan ddefnyddio darnau o'r sesiwn a gafodd ei ffilimio ar gyfer y diben hynny.
Gwahoddir barn y Pwyllgor.
5. Yr ail, elfen o ddeall gwaith y Cyngor yw gwybod gyda pwy i gysylltu ar wahanol achlysuron. Mae aelodau yn parhau yn aneglur efo pwy i gysylltu – yn arbennig ar faterion gwasanaeth. Wrth gwrs, ar y Porth Aelodau, mae taflen lle mae pob adran wedi nodi'r cyfrifoldebau am wasanaethau a manylion cyswllt ar gyfer hynny. Mae dwy elfen i'r broblem o wybod gyda pwy i gysylltu.
 - a) Yn gyntaf, mae nifer o aelodau yn parhau yn anghyfarwydd â'r Porth ac ddim yn gwybod sut mae cael gafael ar y swyddogion, ac
 - b) Yn ail mae rhai aelodau yn teimlo y dylent fedru cysylltu â swyddogion sydd yn is ar y strwythur na'r Rheolwyr Gwasanaeth a nodir ar y Porth.

Gyda chytundeb y Pwyllgor, ein bwriad yw trefnu sesiynau “syrjeri” ar faterion TG, yn cynnwys defnydd o’r Porth, cyn neu ar ôl cyfarfodydd nesaf y 4 Fforwm Ardal.

O ran cynnwys y rhestr, gyda chytundeb y Pwyllgor, fe ofynnwn i bob adran adolygu cynnwys y rhestr i weld a yw’n rhesymol rhyddhau manylion cyswllt mwy o swyddogion i aelodau fedru cysylltu â hwy.

Yn ychwanegol, gwnaethpwyd cryn waith datblygol er mwyn sefydlu’r porth erbyn mis Mai 2017, ond mae ei lwyddiant yn ddibynnol ar iddo gael ei ddefnyddio yn gyson a bod gwybodaeth addas wedi ei gynnwys ar y porth. Er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn parhau yn addas ac yn gyfredol, gwahoddir y pwyllgor i ystyried adnabod 2 – 3 aelod o’r pwyllgor i ffurfio grwp bychan i gynghori swyddogion ar y cynnwys ac unrhyw ddatblygiadau pellach l’r Porth.

Gwahoddir barn y Pwyllgor.

6. Mae aelodau, yn amlwg, wedi gwerthfawrogi’n fawr iawn y trefniadau i’w hanwytho ar ddechrau oes y Cyngor, yn arbennig felly y ddau ddiwrnod llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Mai, 2017. Fodd bynnag, o edrych ar gynnwys y sesiynau hynny a hyfforddiant dilynol, mae’n amlwg bod y ffocws wedi bod ar ofynion gwaith “o fewn y Cyngor” gyda ychydig iawn o sylw i waith yn y gymuned ac ar y ward, elfen eithriadol o bwysig o waith aelod. Wrth gwrs, mae sut y mae aelod yn gweithredu o fewn ei ward yn fater personol iawn ond awgrymwyd ei fod yn rhywbeth lle y gallai aelodau ddysgu oddi wrth ei gilydd i weld ymarfer da. Awgrymir felly ein bod yn trefnu “syrjeri” arall lle y mae aelodau newydd a phrofiadol yn rhannu y modd y maent yn delio â materion ward a gweld os yw trefn felly yn profi yn llwyddiannus. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
7. Mae anghenion penodol wedi codi mewn rhai achosion ar faterion unigol. Mae rheoli amser, yn amlwg, yn fater anodd wrth i gynghorwyr geisio cadw cydbwysedd gwaith cyngor, gwaith ward a bywyd bob dydd. Bydd modd trafod efo’r aelodau hynny i weld a fyddent yn medru elwa o dderbyn hyfforddiant rheoli amser. Mae trefniadau ar y gweill gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i gynnig Webinar Rheoli Amser cyn diwedd Tachwedd gyda’r opsiwn o gynnig hyfforddiant pellach wyneb i wyneb hefyd i’r rhai sy’n ei ddymuno. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
8. Materion eraill mwy penodol yw rheoli newid, siarad cyhoeddus a delio â phobl anodd. Hawdd gweld bod angen cynnig darpariaeth ar gyfer y math hwn o angen a bydd yr Uned Dysgu a Datblygu yn ystyried beth yw’r ffordd gorau o gynnig y ddarpariaeth hynny. Mae trefniadau ar y gweill i gynnig hyfforddiant (wyneb i wyneb) “Arwain Cymunedau trwy Newid”, Siarad yn gyhoeddus a delio hefo pobl anodd. Oherwydd natur y pynciau, ein bwriad fydd rhedeg cyfres o sesiynau i grwpiau llai. Rhagwelir cynnig y teitlau yn gynnar yn y flwyddyn newydd ond gallwn fod yn hyblyg. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
9. Mae’r maes Tai wedi bod yn faes sydd yn anodd, yn arbennig i aelodau newydd er mwyn iddynt ddeall cyfrifoldebau’r Cyngor a’r cymdeithasau tai a Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn benodol. Yn dilyn hyn, trefnwyd bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal sesiynau briffio i aelodau newydd ym Medi a Tachwedd er mwyn esbonio sut y mae’r systemau yn gweithio a sut y mae cynghorydd yn medru gweithredu ar ran ei etholwyr yn y maes hwn.

10. Gwahoddir ymateb y pwyllgor i'r pwyntiau a nodir uchod ac i gynnig arweiniad ar y ffordd ymlaen ar y materion hyn.

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 Hydref 2017
TEITL YR ADRODDIAD	Ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gynabyddiaeth Ariannol
PWRPAS	Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
ARGYMHELLIAD	Cyflwyno sylwadau
AWDUR	Cynghorydd Dewi Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol sydd yn gyfrifol am bennu'r cyflogau a'r costau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwedd eu dyletswyddau. Bob blwyddyn, mae'r Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt.
2. Gellir gweld copi o'r ymgynghoriad llawn trwy ddilyn y ddolen isod:
<http://gov.wales/irpwsb/home/publication-reports/financial-year-2018-19/?skip=1&lang=cy>
3. Eleni, bu aelodau'r Panel yn ymweld â phob awdurdod er mwyn trafod gwahanol agweddau o'r cynabyddiaeth i aelodau, ac mae'r awgrymiadau sy'n cael eu argymhell ganddynt yn seiliedig ar y trafodaethau hynny.
4. Tynnir eich sylw at y prif awgrymiadau ym mhapur y Panel sy'n haeddu sylw:

a) Cyflog sylfaenol:

Mae'r Panel yn argymhell y dylid cynyddu lefel cyflog sylfaenol aelod etholedig o £200 y flwyddyn (£13,600 yn lle'r £13,400 cyfredol). Cynnydd o 1.49% fyddai hynny.

Er mwyn gosod hyn mewn cyd-destun, dylid nodi fod penderfyniadau'r Panel yn ei adroddiad yn 2009, wrth sefydlu sail cyflogau aelodau, yn cysylltu taliadau ag enillion gros canorfol gweithwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru. Pennwyd y cyflog sylfaenol ar lefel a oedd yn dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru gyfan, gan gydnabod bod yna gyfraniad di-dâl i wasanaeth cyhoeddus. Yn sgil y cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn benodol, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal y cysylltiad ag enillion cyfartalog yng Nghymru. Y llynedd, 2017-18 gwelwyd y cynnydd cyntaf i'r cyflog sylfaenol ers 2013, sef cynnydd o £100.

Nodwyd hefyd yn ystod trafodaethau gydag amrywiol gynghorau fod nifer wedi nodi fod y cyflog yn rhy isel i ddenu pobl ifanc ac i annog amrywiaeth, ac fod gwahaniaethau sylweddol rhwng cynabyddiaeth ariannol a'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig mewn lefelau eraill o lywodraeth yng Nghymru. Ar y sail wreiddiol, sef tair rhan o bump o'r cyfartaledd, byddai cyflog sylfaenol blynyddol bellach yn uwch na £14,700.

Noder nad oes unrhyw argymhelliad i gynyddu yr uwch gyflogau, er y byddant yn amlwg yn adlewyrchu'r cynnydd yn y cyflog sylfaenol.

Argymhelliad – cefnogi'r cynnig i gynyddu y lwfans sylfaenol o £13,400 i £13,600

b) Lefel Cydnabyddiaeth i Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau:

Mae'r Panel yn argymhell y dylid diddymu'r trefniant dwy haen/lefel o gydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau.

Yn adroddiad blynyddol 2016 cyflwynwyd dwy lefel o gyflog ar gyfer Aelodau Cabinet ac ar gyfer Chadeiryddion Pwyllgorau. Nid yw'r hyblygrwydd hwn wedi cael ei ddefnyddio ac eithrio mewn un achos ar gyfer aelodau'r weithrediaeth. Yn yr un modd, ni chafodd ei ystyried mewn perthynas â chadeiryddion pwyllgorau.

Roedd yn amlwg o'r trafodaethau a gododd yn ystod ymweliadau'r Panel bod bron pob Cyngor o'r farn bod y trefniant hwn yn groes i'r awydd i'r Panel fod yn gyfarwyddol yn ei benderfyniadau. Mae'r Panel yn derbyn hyn ac mae felly wedi gwneud i ffwrdd â'r trefniant dwy haen i aelodau o Weithrediaethau ac i gadeiryddion pwyllgorau.

Argymhelliad – cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r ddwy lefel o gyflog ar gyfer Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau

c) Ad-daliadau ar gyfer costau gofal

Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod darpariaeth ar gyfer gwneud ad-daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â threfnu gofal ar gyfer plant neu ddibynyddion er mwyn galluogi aelodau i gyflawni busnes swyddogol. Mae dyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo'r ad-daliad yma. Dylid nodi na fu unrhyw hawliad am yr ad-daliad yma unwaith eto llynedd yng Ngwynedd. Noder fod rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy.

Yn dilyn penderfyniad y Panel i lacio'r gofynion cyhoeddi ad-daliadau costau gofal ar gyfer 2017-18 (sef cynnig o gyhoeddi manylion symiau a ad-dalwyd i aelodau a'u henwi, neu i gyhoeddi cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn y flwyddyn ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod na'i enwi) bydd yn ddiddorol gweld os yw hyn yn cael unrhyw effaith ac yn arwain at fwy o aelodau yn hawlio.

Mae'r Panel yn gofyn i Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i gymryd camau i annog mwy o aelodau i ddefnyddio'r elfen hon o'r fframwaith a hwyluso'r broses o'i hawlio fel nad yw'r aelodau dan sylw'n profi anfantaes ariannol.

Argymhelliad – Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud ad-daliadau costau gofal ar gael er mwyn galluogi mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i allu cymryd rôl fel Aelod Etholedig. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi mai penderfyniad Cyngor Gwynedd fydd cyhoeddi cyfanswm a gostau gofal a ad-dalwyd a pheidio priodoli unrhyw gostau i aelod unigol yn 2017-18. Gobeithio y bydd y cam yma yn annog mwy o aelodau i hawlio'r hyn y maent yn gymwys iddo er mwyn eu cynorthwyo yn eu gwaith.

5. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor

Eitem 8

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 Hydref 2017
TEITL YR ADRODDIAD	Diweddariad i ddata (amrywiaeth)
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor yn unol â'r cais yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
ARGYMHELLIAD	Derbyn sylwadau'r Pwyllgor
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr etholiadau, ar yr 11eg o Orffennaf, 2017, a chyflwynwyd data fel gwybodaeth cefndirol i aelodau'r Pwyllgor fel cyd-destun i rôl y Pwyllgor. Cafwyd cryn drafodaethau ar y diwrnod, a gofynnwyd am rhywfaint o wybodaeth a data ychwanegol i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.
2. Gofynnodd aelodau'r pwyllgor am wybodaeth ynghylch niferoedd oedd wedi sefyll yn etholiad 2012 o gymharu â 2017 ynghyd â gwybodaeth am y nifer merched oedd wedi sefyll ar yr achlysuron hyn. Gweler y data a'r dadansoddiad isod.

	2012	2017
Merched wnaeth sefyll mewn etholiad	35	39
Seddi di-wrthwynebiad	19	21

		Arfon	Dwyfor	Meirion	Cyfanswm
2012	merched wnaeth sefyll etholiad (fesul ardal)	17	9	9	35
	seddi (fesul ardal)	34	20	21	75
	Seddi di-wrthwynebiad (fesul ardal)	7	3	9	19
	Seddi di-wrthwynebiad fel canran o'r holl seddi (fesul ardal)	21%	15%	43%	25%
2017	merched wnaeth sefyll etholiad (fesul ardal)	13	14	12	39
	seddi (fesul ardal)	34	20	21	75
	Seddi di-wrthwynebiad (fesul ardal)	7	5	9	21
	Seddi di-wrthwynebiad fel canran o'r holl seddi (fesul ardal)	21%	25%	43%	28%

- Gwelir fod niferoedd y merched a wnaeth sefyll yn yr etholiadau wedi cynyddu o bedair rhwng 2012 a 2017
- Fesul ardal, mae'r niferoedd o ferched a wnaeth sefyll wedi lleihau yn ardal Arfon, ond wedi cynyddu fymryn yn ardaloedd Dwyfor a Meirionydd.

- Gwelwyd cynnydd bychan yn y niferoedd o seddi di-wrthwynebiad yn etholiadau Cyngor Gwynedd rhwng 2012 a 2017. I atgoffa'r aelodau, noder bydd y niferoedd seddi yn debygol iawn o leihau erbyn etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022 o ganlyniad i waith y Comisiwn Ffiniau.
3. Yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd nifer o'r rhesymau posib pam fod niferoedd y merched sy'n dewis sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol yn parhau i fod yn isel. Mae adroddiad terfynol Comisiwn Llywodraeth Leol gan Gymdeithas Fawcett (gyhoeddwyd Gorffennaf 2017) wedi edrych ar nifer o wahanol ffactorau yn ymwneud ag amrywiaeth. Mae'n adroddiad beirniadol sy'n nodi fod graddfa newid i'w weld yn arbennig o araf, ac na fydd cysondeb i gydraddoldeb rhwng dynion a merched o fewn llywodraeth leol hyd 2065 os yw'n parhau ar yr un graddfa a nawr.
 4. Yn ychwanegol, ar ddiwedd tymor y cyngor diwethaf, gwnaeth yr Uned Ddata Llywodraeth Leol gynnal arolwg o aelodau etholedig oedd yn dewis peidio sefyll eto yn etholiadau 2017, a'r aelodau hynny na fu'n llwyddiannus yn ail ennill eu seddi yn dilyn yr etholiad. Pwrpas yr arolwg oedd ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth i'r gyrwyr a'r rhwystrau ar gyfer bod yn aelodau etholedig.
 5. Mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiad yn ôl gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ar yr hyn a adroddwyd gan gyn-aelodau Gwynedd. Gan mai dim ond nifer fychan o gyn-aelodau a wnaeth ateb yr holiadur, nid ydym yn gallu rhannu'r negeseuon o'r ymatebion gan y byddai'n bosib adnabod yr unigolion. Fodd bynnag, dylid nodi fod yr ymatebion wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol am y gefnogaeth a roddwyd i'r aelodau a'r ysbryd yr oedd aelodau o wahanol grwpiau yn cyd-weithio o fewn Cyngor Gwynedd.
 6. Mae dadansoddiad o'r prif wersi ar gyfer Cymru gyfan wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, ond mae'r prif negeseuon sydd wedi eu rhannu ar ffurf drafft ar hyn o bryd fel a ganlyn:
 - Mwyafrif llethol o aelodau wedi adrodd profiad cadarnhaol ar y cyfan o'u rôl fel cynghorwyr, gan ddisgrifio eu bod yn teimlo fel pe baent wedi gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r datblygiad a roddodd eu hawdurdod lleol iddynt.
 - Rhai aelodau wedi sefyll i lawr oherwydd anfodddhad neu ddadrithiad, gyda'r mwyafrif yn sefyll i lawr er mwyn ymddeol neu oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau personol.
 - Llawer o aelodau yn nodi cryn amser ac ymrwymiad personol i'r rôl, a fu'n her arbennig i'r rhai a oedd mewn cyflogaeth.
 - Y mwyafrif o aelodau wedi disgrifio peth rhwystredigaeth gyda'r rôl ac yn adnabod lle gallai gwelliannau gael eu gwneud yn lefel y cymorth a/neu sut mae cynghorau neu grwpiau gwleidyddol yn gweithredu.
 - Rhai aelodau wedi nodi profiadau arbennig o negyddol o rai agweddau ar y rôl.
 - Cryn dipyn o brofiad wedi'i golli ar draws Cymru yn gyffredinol gan fod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi gwasanaethu am o leiaf dau dymor cyn sefyll i lawr.
 - Yr arolwg yn awgrymu fod cyfle efallai i newid proffil oedran siambrau cyngor, sydd yn hanesyddol wedi cael eu dominyddu gan bobl sydd wedi ymddeol dros 60 mlwydd oed.

Awgrymir fod adroddiad pellach yn cynnwys y wybodaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor.

7. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar yr uchod.